| *Cronnol* Cumulative | 321 | | 25 | 7.8 | 58 | 18.1 | 114 | 35.5 | 190 | 59.2 | 242 | 75.4 | 269 | 83.8 | 296 | 92.2 | 313 | 97.5 | 321 | 100 | ***59.2*** | ***97.5*** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | ***8915*** | | ***904*** | ***10.1*** | ***2319*** | ***26.0*** | ***4088*** | ***45.9*** | ***5834*** | ***65.4*** | ***7095*** | ***79.6*** | ***7953*** | ***89.2*** | ***8474*** | ***95.1*** | ***8802*** | ***98.7*** | ***8915*** | ***100*** | ***65.4*** | ***98.7*** |

***Includes 35 Y9 Pupils & 9 Y10 pupils**

## *Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 7 – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2009 – PAWB ASTUDIAETHAU CREFYDDOL*
## Denbighshire Schools – Table 7 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2009: ALL – RELIGIOUS STUDIES

| ***Ysgolion*** **Schools** | ***Cyfanswm*** **Totals** | **A** | **%** | **B** | **%** | **C** | **%** | **D** | **%** | **E** | **%** | **U** | **%** | **% A - C** | **% A - E** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 18 | 6 | 33.3 | 5 | 27.8 | 4 | 22.2 | 3 | 16.7 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***83.3*** | ***100*** |
| Glan Clwyd | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| Prestatyn | 28 | 8 | 28.6 | 9 | 32.1 | 6 | 21.4 | 4 | 14.3 | 1 | 3.6 | 0 | 0.0 | ***82.1*** | ***100*** |
| Dinas Bran | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| Brynhyfryd | 6 | 2 | 33.3 | 2 | 33.3 | 1 | 16.7 | 1 | 16.7 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***83.3*** | ***100*** |
| *Y Rhyl*/Rhyl | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| *Ben Ed Jones/*Bl. Ed Jones | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| *Santes Ffraid* St Brigids | 14 | 7 | 50.0 | 4 | 28.6 | 3 | 21.4 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***100*** | ***100*** |
| *Cyfanswm AALl* LEA Totals | 66 | 23 | 34.8 | 20 | 30.3 | 14 | 21.2 | 8 | 12.1 | 1 | 1.5 | 0 | 0.0 | ***86.4*** | ***100*** |
| *Cronnol* Cumulative | 66 | 23 | 34.8 | 43 | 65.2 | 57 | 86.4 | 65 | 98.5 | 66 | 100 | 66 | 100 | ***86.4*** | ***100*** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | ***1112*** | ***292*** | ***26.3*** | ***624*** | ***56.1*** | ***886*** | ***79.7*** | ***1038*** | ***93.3*** | ***1098*** | ***98.7*** | ***1112*** | ***100*** | ***79.7*** | ***98.7*** |

**_Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 8 – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2009 – BECHGYN ASTUDIAETHAU CREFYDDOL_**
**Denbighshire Schools – Table 8 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2009: BOYS – RELIGIOUS STUDIES**

| ***Ysgolion*** **Schools** | ***Cyfan swm*** **Totals** | **A** | **%** | **B** | **%** | **C** | **%** | **D** | **%** | **E** | **%** | **U** | **%** | **% A - C** | **% A - E** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 12 | 4 | 33.3 | 4 | 33.3 | 3 | 25.0 | 1 | 8.3 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***91.7*** | ***100*** |
| Glan Clwyd | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| Prestatyn | 11 | 3 | 27.3 | 6 | 54.5 | 0 | 0.0 | 2 | 18.2 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***81.8*** | ***100*** |
| Dinas Bran | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| Brynhyfryd | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| *Y Rhyl* /Rhyl | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| *Ben Ed Jones* Bl. Ed Jones | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| *Santes Ffraid* St Brigids | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| *Cyfanswm AALl* LEA Totals | 23 | 7 | 30.4 | 10 | 43.5 | 3 | 13.1 | 3 | 13.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***87.0*** | ***100*** |
| *Cronnol* Cumulative | 23 | 7 | 30.4 | 17 | 73.9 | 20 | 87.0 | 23 | 100 | 23 | 100 | 23 | 100 | ***87.0*** | ***100*** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | ***250*** | ***69*** | ***27.6*** | ***141*** | ***56.4*** | ***192*** | ***76.8*** | ***229*** | ***91.6*** | ***244*** | ***97.6*** | ***250*** | ***100*** | ***76.8*** | ***97.6*** |

***Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 9 – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2009 – MERCHED ASTUDIAETHAU CREFYDDOL***

**Denbighshire Schools – Table 9 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2009: GIRLS – RELIGIOUS STUDIES**

| ***Ysgolion*** **Schools** | **Cyfanswm Totals** | **A** | **%** | **B** | **%** | **C** | **%** | **D** | **%** | **E** | **%** | **U** | **%** | **% A - C** | **% A - E** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 6 | 2 | 33.3 | 1 | 16.7 | 1 | 16.7 | 2 | 33.3 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***83.3*** | ***100*** |
| Glan Clwyd | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| Prestatyn | 17 | 5 | 29.4 | 3 | 17.6 | 6 | 35.3 | 2 | 11.8 | 1 | 5.9 | 0 | 0.0 | ***82.4*** | ***100*** |
| Dinas Bran | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| Brynhyfryd | 6 | 2 | 33.3 | 2 | 33.3 | 1 | 16.7 | 1 | 16.7 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***83.3*** | ***100*** |
| *Y Rhyl*/Rhyl | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| *Ben Ed Jones/* Bl. Ed Jones | 0 | | | | | | | | | | | | | | |
| Santes Ffraid/ St Brigids | 14 | 7 | 50.0 | 4 | 28.6 | 3 | 21.4 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***100*** | ***100*** |
| *Cyfanswm AALl* LEA Totals | 43 | 16 | 37.2 | 10 | 23.3 | 11 | 25.6 | 5 | 11.6 | 1 | 2.3 | 0 | 0.0 | ***86.0*** | ***100*** |
| *Cronnol* Cumulative | 43 | 16 | 37.2 | 26 | 60.5 | 37 | 86.0 | 42 | 97.7 | 43 | 100 | 43 | 100 | ***86.0*** | ***100*** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | ***1211*** | ***332*** | ***27.4*** | ***591*** | ***48.8*** | ***858*** | ***70.9*** | ***1037*** | ***85.6*** | ***1169*** | ***96.5*** | ***1211*** | ***100*** | ***70.9*** | ***96.5*** |

## Summary of Examination Results – 2009
*For Denbighshire SACRE February 2010*

**GCSE Results:**

Religious Studies: Full Course

*All candidates:*

| School | 2009 entry | 2008 entry | 2009 A*-C % | 2008 A*-C % | Difference % | +/- Nat 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Denbigh** | 33 | 17 | 72.7 | 70.6 | +2.1 | +0.8 |
| **Glan Clwyd** | 24 | 16 | 91.7 | 68.8 | +22.9 | +19.8 |
| **Prestatyn** | 210 | 141 | 89.5 | 77.3 | +12.2 | +17.6 |
| **Dinas Bran** | 1 | 4 | 100 | 100 | +/-0.0 | +28.1 |
| **Brynhyfryd** | 8 | 6 | 100 | 100 | +/-0.0 | +28.1 |
| **Rhyl** | 4 | 5 | 100 | 100 | +/-0.0 | +28.1 |
| **Bl Ed Jones** | 59 | 52 | 40.7 | 55.8 | -15.1 | -31.2 |
| **St Brigids** | 44 | 47 | 95.5 | 97.9 | -2.4 | +23.6 |
| | | | | | | |
| **LEA** | 383 | 288 | 81.7 | 77.1 | +2.1 | +9.8 |
| **All Wales** | 8042 | 8137 | 71.9 | 72.0 | | |

*Boys:*

| School | 2009 entry | 2008 entry | 2009 A*-C % | 2008 A*-C % | Difference % | +/- Nat 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Denbigh** | 18 | 6 | 72.2 | 100 | -27.8 | +6.0 |
| **Glan Clwyd** | 0 | 1 | -- | 100 | -100 | -66.2 |
| **Prestatyn** | 101 | 68 | 86.1 | 79.4 | +6.7 | +19.9 |
| **Dinas Bran** | 0 | 1 | -- | 100 | -100 | -66.2 |
| **Brynhyfryd** | 5 | 4 | 100 | 100 | +/-0.0 | +33.8 |
| **Rhyl** | 1 | 0 | 100 | -- | +100 | +33.8 |
| **Bl Ed Jones** | 24 | 25 | 50.0 | 60.0 | -10.0 | -16.2 |
| **St Brigids** | -- | -- | -- | -- | -- | -- |
| | | | | | | |
| **LEA** | 149 | 105 | 79.2 | 77.1 | +2.1 | +13.0 |
| **All Wales** | 3196 | 3086 | 66.2 | 65.7 | | |

GCSE Religious Studies – Full Course

*Girls:*

| School | 2009 entry | 2008 entry | 2009 A*-C % | 2008 A*-C % | Difference % | +/- Nat 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Denbigh** | 15 | 11 | 73.3 | 54.5 | +18.8 | -2.4 |
| **Glan Clwyd** | 24 | 15 | 91.7 | 66.7 | +25.0 | +16.0 |
| **Prestatyn** | 109 | 73 | 92.7 | 75.3 | +17.4 | +17.0 |
| **Dinas Bran** | 1 | 3 | 100 | 100 | +/-0.0 | +24.3 |
| **Brynhyfryd** | 3 | 2 | 100 | 100 | +/-0.0 | +24.3 |
| **Rhyl** | 3 | 5 | 100 | 100 | +/-0.0 | +24.3 |
| **Bl Ed Jones** | 35 | 27 | 34.3 | 51.9 | -17.6 | -41.4 |
| **St Brigids** | 44 | 47 | 95.5 | 97.9 | -2.4 | +19.8 |
| | | | | | | |
| **LEA** | 234 | 183 | 83.3 | 77.0 | +6.3 | +7.6 |
| **All Wales** | 4846 | 5051 | 75.7 | 75.8 | | |

GCSE Religious Studies: Short Course

*All candidates:*

| School | 2009 entry | 2008 entry | 2009 A*-C % | 2008 A*-C % | Difference % | +/- Nat 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Denbigh** | 152 | 58 | 40.8 | 58.6 | -17.8 | -18.4 |
| **Glan Clwyd** | 25 | 17 | 84.0 | 64.7 | -19.3 | +24.8 |
| **Prestatyn** | 42 | 14 | 9.5 | 14.3 | -4.8 | -49.7 |
| **Dinas Bran** | 75 | 106 | 80.0 | 28.3 | +51.7 | +20.8 |
| **Brynhyfryd** | 8 | 6 | 100 | 100 | +/-0.0 | -40.8 |
| **Rhyl** | 208 | 197 | 46.6 | 33.0 | +/-13.6 | -12.6 |
| **Bl Ed Jones** | 12 | 16 | 16.7 | 18.8 | -2.1 | -42.5 |
| **St Brigids** | 51 | 53 | 96.1 | 96.2 | -0.1 | +36.9 |
| | | | | | | |
| **LEA** | 573 | 467 | 52.9 | 43.3 | +9.6 | -6.3 |
| **All Wales** | 17288 | 16225 | 59.2 | 59.7 | | |

<u>GCSE Religious Studies – Short Course</u>

*Boys:*

| School | 2009 entry | 2008 entry | 2009 A*-C % | 2008 A*-C % | Difference % | +/- Nat 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Denbigh** | 96 | 26 | 38.5 | 61.5 | -23.0 | -14.0 |
| **Glan Clwyd** | 0 | 1 | -- | 0.0 | -- | -- |
| **Prestatyn** | 29 | 5 | 10.3 | 0.0 | +10.3 | -42.2 |
| **Dinas Bran** | 34 | 41 | 85.3 | 26.8 | +58.5 | +32.8 |
| **Brynhyfryd** | 5 | 4 | 100 | 100 | +/-0.0 | +47.5 |
| **Rhyl** | 85 | 97 | 45.9 | 21.6 | +24.3 | +6.6 |
| **Bl Ed Jones** | 3 | 13 | 0.0 | 23.1 | -23.1 | -52.5 |
| **St Brigids** | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| | | | | | | |
| **LEA** | 252 | 187 | 44.8 | 29.4 | -15.4 | -7.7 |
| **All Wales** | 8373 | 7712 | 52.5 | 53.4 | | |

*Girls:*

| School | 2009 entry | 2008 entry | 2009 A*-C % | 2008 A*-C % | Difference % | +/- Nat 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Denbigh** | 56 | 32 | 44.6 | 56.3 | -11.7 | -20.8 |
| **Glan Clwyd** | 25 | 16 | 84.0 | 68.8 | +15.2 | +18.6 |
| **Prestatyn** | 13 | 9 | 7.7 | 22.2 | -14.5 | -57.7 |
| **Dinas Bran** | 41 | 65 | 75.6 | 29.2 | +46.4 | +10.2 |
| **Brynhyfryd** | 3 | 2 | 100 | 100 | +/-0.0 | +34.6 |
| **Rhyl** | 123 | 100 | 47.2 | 44.0 | +3.2 | -18.2 |
| **Bl Ed Jones** | 9 | 3 | 22.2 | 0.0 | +22.2 | -43.2 |
| **St Brigids** | 51 | 53 | 96.1 | 96.2 | -0.1 | +30.7 |
| | | | | | | |
| **LEA** | 321 | 280 | 59.2 | 52.5 | +6.7 | -6.2 |
| **All Wales** | 8951 | 8513 | 65.4 | 65.4 | | |

GCE Religious Studies - Advanced Level

*All candidates:*

| School | 2009 entry | 2008 entry | 2009 A-C % | 2008 A-C % | Difference % | +/- Nat 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Denbigh | 18 | 14 | 83.3 | 64.3 | +19.0 | +3.6 |
| Glan Clwyd | 0 | 8 | -- | 75.0 | -75.0 | -- |
| Prestatyn | 28 | 26 | 82.1 | 34.6 | +47.5 | +2.4 |
| Dinas Bran | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| Brynhyfryd | 6 | 8 | 83.3 | 100 | -16.7 | +3.6 |
| Rhyl | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| Bl Ed Jones | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| St Brigids | 14 | 7 | 100 | 100 | +/-0.0 | +20.3 |
| | | | | | | |
| LEA | 66 | 63 | 86.4 | 77.8 | +8.6 | +6.7 |
| All Wales | 1112 | 1016 | 79.7 | 75.7 | | |

*Boys:*

| School | 2009 entry | 2008 entry | 2009 A-C % | 2008 A-C % | Difference % | +/- Nat 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Denbigh | 12 | 6 | 91.7 | 50.0 | +41.7 | +14.9 |
| Glan Clwyd | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| Prestatyn | 11 | 6 | 81.8 | 66.7 | +15.1 | +5.0 |
| Dinas Bran | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| Brynhyfryd | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| Rhyl | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| Bl Ed Jones | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| St Brigids | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| | | | | | | |
| LEA | 23 | 12 | 87.0 | 58.3 | +28.7 | +10.2 |
| All Wales | 250 | 220 | 76.8 | 67.3 | | |

GCE Religious Studies - Advanced Level

*Girls:*

| School | 2009 entry | 2008 entry | 2009 A-C % | 2008 A-C % | Difference % | +/- Nat 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Denbigh** | 6 | 8 | 83.3 | 75.0 | +8.3 | +12.4 |
| **Glan Clwyd** | -- | 8 | -- | 75.0 | -75.0 | -- |
| **Prestatyn** | 17 | 20 | 82.4 | 75.0 | +7.4 | +11.5 |
| **Dinas Bran** | -- | 0 | -- | -- | -- | -- |
| **Brynhyfryd** | 6 | 8 | 83.3 | 100 | -16.7 | +12.4 |
| **Rhyl** | -- | 0 | -- | -- | -- | -- |
| **Bl Ed Jones** | -- | 0 | -- | -- | -- | -- |
| **St Brigids** | 14 | 7 | 100 | 100 | +/-0.0 | +29.1 |
| | | | | | | |
| **LEA** | 43 | 51 | 86.0 | 82.4 | +3.6 | +15.1 |
| **All Wales** | 1211 | 796 | 70.9 | 78.0 | | |

# Results Comparison to National Average

| **Full Course A* - C** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2002** | **2003** | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | |
| Denbigh HS | 69.3% | **66.7%** | **50.0%** | **61.2%** | **67.9%** | **42.9%** | **70.6%** | 72.7% | *6 continuous years below national averages. 2009 above* |
| Glan Clwyd | **62.5%** | **54.5%** | N/A | **54.6%** | **63.6%** | 100% | **68.8%** | 91.7% | *5 years below; 1 year gap; 2 yr above; down* |
| Prestatyn | **57.3%** | 73.0% | 74.7% | **65.4%** | 81.9% | 75.5% | 77.3% | 89.5% | *6 years above; 2 below* |
| Dinas Bran | 69.3% | **50.0%** | **63.6%** | **44.4%** | **72.7%** | **0.0%** | 100% | 100% | *2 continuous years above after 6 years continually below* |
| Brynhyfryd | 91.6% | 77.8% | 68.8% | **40.0%** | **66.7%** | 100% | 100% | 100% | *6 years above; 2 years below; last 3 years above* |
| Rhyl HS | N/A | N/A | N/A | **60.0%** | **0.0%** | 100% | 100% | 100% | *3 years well above after 2 years below and 3 N/A* |
| BEJ | **36.5%** | **40.8%** | **44.9%** | **41.9%** | **22.4%** | **39.1%** | **55.8%** | **40.7**% | *8 years continuously below national averages* |
| St Brigid's | 89.2% | 90.4% | 86.5% | 95.7% | 98.0% | ---- | 97.9% | 95.5% | *7 years above national averages; 1 year gap* |
| **Nat. Average** | **66.6%** | **69.8%** | **68.1%** | **70.2%** | **73.7%** | **71.1%** | **72.0%** | **71.9%** | |
| | | | | | | | | | |
| **Short Course A* - C** | | | | | | | | | |
| | **2002** | **2003** | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | |
| Denbigh HS | **56.1%** | 87.8% | 64.6% | 70.6% | 65.9% | **51.8%** | **58.6%** | **40.8%** | *4 years below after 4 continuous years above* |
| Glan Clwyd | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | **53.3%** | 64.7% | 84.0% | *2 years above, 1 below and 5 years no entry* |
| Prestatyn | N/A | **28.6%** | **0.0%** | **20.0%** | **42.9%** | **28.6%** | **14.3%** | **9.5**% | *7 continuous years below national averages* |
| Dinas Bran | **51.1%** | 63.0% | **47.8%** | **32.9%** | **28.3%** | 60.6% | **28.3%** | 80.0% | *5 years below; 3 years above* |
| Brynhyfryd | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | 100% | 100% | *2 continuous years above after 6 years no entry* |
| Rhyl HS | 63.9% | 62.3% | **44.8%** | 60.6% | **46.8%** | **23.8%** | **33.0%** | **46.6%** | *4 continuous years below since 2005* |
| BEJ | N/A | **0.0%** | **28.6%** | **6.7%** | **17.4%** | **6.1%** | **18.8%** | **16.7%** | *7 continuous years below national averages* |
| St Brigid's | N/A | N/A | 100.0% | 93.6% | 98.0% | 88.7% | 96.2% | 96.1% | *6 continuous years above national averages* |
| **Nat. Average** | **62.3%** | **55.7%** | **58.4%** | **58.7%** | **59.7%** | **58.8%** | **59.7%** | **59.2%** | |
| | | | | | | | | | |

# Results Comparison to National Average

| **A-Level A - C** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2002** | **2003** | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | |
| Denbigh HS | 100.0% | 75.0% | 100.0% | 83.3% | 66.7% | **60.9%** | **64.3%** | 83.3% | *2 years below after 5 years continually above; above 2009* |
| Glan Clwyd | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | **75.0%** | N/A | *Good start after 6 years no entry; no entry 2009* |
| Prestatyn | 87.5% | 87.5% | 100.0% | 92.0% | **64.7%** | 77.8% | **34.6%** | 82.1% | *6 years above; 2 years below* |
| Dinas Bran | **66.7%** | **25.0%** | **50.0%** | **0.0%** | **0.0%** | 100% | N/A | N/A | *No entry after good year following 5 years below* |
| Brynhyfryd | N/A | N/A | 100.0% | **30.0%** | **20.0%** | N/A | 100% | 83.3% | *Good restart after no entry & 2 years below* |
| Rhyl HS | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | |
| BEJ | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | |
| St Brigid's | 100.0% | 100.0% | **44.4%** | **33.3%** | **58.3%** | **50.0%** | 100% | 100% | *Good result after 4 years below national averages* |
| **Nat. Average** | **70.3%** | **73.5%** | **68.9%** | **65.4%** | **65.5%** | **75.9%** | **75.7%** | 79.7% | |

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 24 Chwefror 2010 |
| Eitem Agenda: | **4** | Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu |

*Cefndir i'r Adroddiad:*

Mae gan CYSAG ddyletswydd statudol i fonitro'r ddarpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yn yr ysgolion, ac mae ganddo arfer hir sefydledig o dderbyn a dadansoddi adroddiadau Arolygu Estyn ym mhob cyfarfod.

*Diben yr Adroddiad:*

Hysbysu aelodau o ganlyniadau Adroddiadau Arolygu Estyn diweddar ar ysgolion.

*Argymhellion:*

- Derbyn yr adroddiad
- Anfon llythyr at bob un o'r ysgolion yn eu hysbysu bod eu Hadroddiad Arolygu wedi'i ystyried, eu llongyfarch am y nodweddion da a nodwyd, a'u hatgoffa o wasanaethau'r Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol a Swyddogion Gwella Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw feysydd i'w datblygu neu faterion allweddol sy'n rhaid mynd i'r afael â hwy.
- Gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol ddosbarthu'r llythyron i'r ysgolion dan sylw

**SYLWADAU AR Y CYD-DESTUN: ADRODDIADAU AROLYGU CYSAG SIR DDINBYCH**

**24 Chwefror 2010**

**3 Ysgol**

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Dyddiadau</th><th>Arolygydd Addysg Grefyddol</th><th>Arolygon ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol / Cwestiwn Allweddol 3</th><th>Arolygiad Addysg Grefyddol</th></tr>
<tr><td>Ysgol Llanbedr</td><td>22/06/2009</td><td>Mefyn Lloyd Jones</td><td>Audrey Evans</td><td>Audrey Evans</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae Ysgol Llanbedr a Reolir gan Eglwys yng Nghymru wedi’i lleoli ger pentref Llanbedr. Mae’r ardal y mae’r ysgol yn ei gwasanaethu yn amaethyddol yn bennaf ac mae mwyafrif y disgyblion yn byw’n lleol. Daw 75% o’r disgyblion o ardaloedd gweddol ffyniannus, a daw'r 25% sy’n weddill o gefndiroedd y dywedir nad ydynt yn ddifreintiedig yn economaidd nac yn ffyniannus. Saesneg yw iaith gyntaf ymron pob disgybl. Ar hyn o bryd mae 77 o ddisgyblion ar y gofrestr gan gynnwys 8 o blant meithrin rhan amser. Dysgir y disgyblion mewn 3 o ddosbarthiadau oed cymysg. Nid oes gan yr un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig er mae 8 sydd naill ai ar weithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy ar gyfer cymorth ychwanegol mewn gwersi.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Dewi Sant</td><td>28/09/2009</td><td>Merfyn Lloyd Jones</td><td>Hazel Hughes</td><td>Sylvia Clough</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae ysgol Gymraeg gymunedol Ysgol Dewi Sant wedi’i lleoli ar gyrion y Rhyl. Mae 425 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 81 o blant sy’n mynychu ysgol feithrin rhan amser. Daw rhan fwyaf y disgyblion o gartrefi di-gymraeg. Daw chwarter o’i disgyblion o ardal a ddisgrifir yn ardal breswyl o amddifadedd a daw’r gweddill o ardaloedd nad ydynt yn ffyniannus nac yn ddifreintiedig yn economaidd. Mae gan 3 disgybl ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig ac mae 87 disgybl ar weithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy sy’n derbyn cymorth ychwanegol.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Bodfari</td><td>05/10/2009</td><td>Robert S Wormleighton</td><td>Glyn Griffiths</td><td>Heb ei harolygu</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae Ysgol Bodfari yn ysgol gynradd gymunedol wedi’i lleol ym mhentref bach Bodfari. Ar hyn o bryd mae 26 o ddisgyblion ar y gofrestr gan gynnwys 4 o blant meithrin rhan amser. Mae’r ysgol yn disgrifio ei thalgylch yn wledig, gyda rhai lleoliadau ynysig, ac mae ei theuluoedd yn dod o ystod eang o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd. Mae 10% o’r disgyblion wedi’u hadnabod ag anghenion addysgol arbennig sydd islaw cyfartaledd yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae gan un disgybl ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Daw’r holl ddisgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith. Nid yw’r Gymraeg yn iaith gyntaf i'r un ohonynt. Enillodd yr ysgol Wobr Buddsoddwyr mewn Pobl ym mis Mawrth 2009.</td></tr>
</table>

**Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu**
**CYSAG Sir Ddinbych**
**23 Chwefror 2010**

## DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

*Materion allweddol:* *2 Ysgol*

- *Gwella gallu dwyieithog y disgyblion. (Ysgol Llanbedr)*
- *Lledaenu a datblygu arfer da ymhellach wrth hyrwyddo sgiliau meddwl ac asesiad ar gyfer mentrau dysgu ar draws yr ysgol, gan alluogi i ddisgyblion wneud eu penderfyniadau eu hunain ar sut y gallant wella. (Ysgol Bodfari)*
- **Sicrhau cysondeb wrth gyflwyno gwaith disgyblion ar draws y pynciau ac ar draws yr ysgol. (Ysgol Bodfari)*
- *Datblygu sgiliau menter y disgyblion er mwyn hyrwyddo sgiliau gwneud penderfyniadau a datrys problemau'r disgyblion. (Ysgol Bodfari)*

* Mae'r argymhellion hyn eisoes wedi'u hadnabod gan yr ysgol yn ei Chynllun Datblygu Ysgol.

## SYLWADAU POSITIF

**Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig** **3 Ysgol**

- Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael ei hyrwyddo yn briodol trwy agweddau o'r cwricwlwm. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae rhai disgyblion yn cymryd rhan mewn dosbarth 'carfan ysgrifennu'. Arweiniodd hyn at ddisgybl yn profi llwyddiant mewn cystadleuaeth Cymraeg ail iaith yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae'r ysgol yn datblygu hyfedredd dwyieithog disgyblion yn llwyddiannus ac mae hyn yn gryfder amlwg. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Rhoddir pwyslais da ar y dimensiwn Cymreig o fewn y cwricwlwm. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae cynlluniau gwaith ar draws yr ysgol yn adlewyrchu agweddau o'r Cwricwlwm Cymreig yn briodol. *(Ysgol Bodfari)*
- Mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau i'w disgyblion, megis ymweliadau â Gwersyll yr Urdd yng Nglan Llŷn, sy'n cyfoethogi eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant a hanes Cymru. *(Ysgol Bodfari)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo dwyieithrwydd yn weithredol. Mae'r holl staff yn gwneud pob ymdrech i ddysgu a gwella eu Cymraeg. Maent yn fynych yn

defnyddio brawddegau priodol a chyfarwyddiadau mewn modd achlysurol yn eu gwersi. *(Ysgol Bodfari)*

- Mae'r ysgol yn adlewyrchu agweddau o'r Cwricwlwm Cymreig yn dda ar draws y cwricwlwm, ac mae darpariaeth briodol wedi'i chynnwys yng nghynlluniau eu hathrawon. *(Ysgol Bodfari)*

**Cyfleoedd ar gyfer cydweithio / cydweithrediad 3 Ysgol**

- Mae gan yr ysgol gysylltiadau da â'r ysgol uwchradd ddynodedig. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae myfyrwyr o'r ysgol uwchradd yn aml yn cael eu gosod yn yr ysgol ar gyfer eu profiad gwaith. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae aelod o staff yr ysgol uwchradd yn ymweld yn wythnosol i roi gwersi Eidaleg i'r disgyblion hŷn. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae partneriaeth agos wedi'i llunio gydag eglwys y plwyf ac mae'r offeiriad yn ei dro yn ymweld â'r ysgol ar gyfer addoli ar y cyd yn wythnosol. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol ac Ysgol Glan Clwyd a'r cydweithrediad priodol rhwng ysgolion cynradd yn y dalgylch yn eithriadol. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae partneriaethau gydag ysgolion cynradd eraill a'r ysgol uwchradd leol wedi hen sefydlu. Mae'r cysylltiadau hyn gyda'r ysgolion eraill yn gryfder wrth helpu'r ysgol i gynnig profiadau a gweithgareddau gwell i'r disgyblion. Mae hon yn nodwedd eithriadol sydd wedi'i chyfoethogi ymhellach gan gysylltiadau gyda'r ysgol yn Normandi a dysgu Ffrangeg fel iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 2. *(Ysgol Bodfari)*

**Rhaglen ar gyfer / Effaith darpariaeth ABCh 3 Ysgol**

- Mae nodweddion da yn y ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad personol disgyblion. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae darpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) wedi'i hintegreiddio'n ofalus i sawl agwedd ar fywyd yr ysgol. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae darpariaeth ABCh yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. *(Ysgol Llanbedr)*
- Ceir cynllun gweithredu effeithiol ar gyfer datblygu ABCh. Mae wedi'i integreiddio'n llwyddiannus i themâu'r dosbarth ac wedi'i osod yn ofalus yn yr amserlen. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Defnyddir gwersi addysg bersonol a chymdeithasol yn effeithiol i drafod agweddau moesol. *(Ysgol Bodfari)*

**Ymwybyddiaeth / Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy 3 Ysgol**

- Trwy'r cwricwlwm, mae disgyblion yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o ddatblygiad cynaliadwy. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae mwyafrif y disgyblion yn gysylltiedig ag ailgylchu ac mae rhai disgyblion yn aelodau o glwb garddio'r ysgol. *(Ysgol Llanbedr)*

- Mae'r ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd cynaliadwyedd ac mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu'r agwedd hon.  Mae'r agwedd hon yn gref mewn rhai dosbarthiadau.  *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae'r ysgol yn gweithio tuag at wobr efydd Eco-Ysgolion sy'n dystiolaeth o'u hymrwymiad i flaenoriaethau cenedlaethol.  *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o ddatblygiad cynaliadwy. Maent wedi ennill gwobr Baner Werdd Eco-Ysgolion ac yn dangos menter gyda materion megis plannu coed newydd, a thyfu eu llysiau organig eu hunain.  Mae'r gweithgareddau a ddarperir trwy'r fenter Ysgol Goedwig hefyd yn cynnig gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddeall sut i ofalu am yr amgylchedd.  Mae hon yn nodwedd eithriadol.   *(Ysgol Bodfari)*

**Cyfle Cyfartal** **3 Ysgol**

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac wedi'i seilio ar gymorth rheolaidd ac unigol i'r disgyblion.  *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu a diddordebau disgyblion ac maent yn derbyn cyfle cyfartal i elwa o gwricwlwm eang a chytbwys.    *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae'r cwricwlwm yr un mor hygyrch i bob disgybl.   *(Ysgol Bodfari)*
- Mae'r holl ddisgyblion waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol neu addysgol yn cael mynediad llawn at y cwricwlwm ac yn derbyn cyfle cyfartal i gymryd rhan yng ngweithgareddau eang ac amrywiol yr ysgol, a hynny o fewn amser yr ysgol ac mewn sesiynau ar ôl ysgol.  *(Ysgol Bodfari)*

**Ymweliadau addysgol / ymwelwyr** **3 Ysgol**

- Mae disgyblion yn ymweld â mannau addoli, y Gadeirlan yn Llanelwy, fferm leol a mannau o ddiddordeb daearyddol a hanesyddol.  *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae ymweliad preswyl â Glan-llyn gan ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn cyfoethogi eu profiadau dysgu a chymdeithasol.  *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae ymwelwyr â'r ysgol, megis swyddog cyswllt yr heddlu, offeiriad lleol ac aelod lleol o'r ffydd Iddewig yn hyrwyddo parch disgyblion dros agweddau a gwerthoedd pobl eraill ac yn datblygu eu synnwyr o ddinasyddiaeth.  *(Ysgol Llanbedr)*
- Trefnir ymweliadau addysgol rheolaidd sy'n cyd-fynd â gwaith yn y dosbarth ac yn cyfoethogi'r cwricwlwm.  Maent yn cyfrannu'n sylweddol at brofiadau a datblygiad disgyblion.   *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae'r disgyblion yn ymweld ag amryw fannau yn y gymuned i gyfoethogi eu dysg. Mae'r rhain yn nodweddion eithriadol, sy'n ymestyn ar ddysgu disgyblion ac yn eu cysylltu'n dda â sefyllfaoedd gwirioneddol o fewn eu hardal leol ac mewn ardaloedd y tu hwnt.  *(Ysgol Bodfari)*
- Mae'r offeiriaid lleol yn ymweld yn rheolaidd ac yn arwain addoli ar y cyd. *(Ysgol Bodfari)*
- Mae disgyblion yn ymweld â busnesau lleol a gwahoddir ymwelwyr i siarad â hwy am eu bywydau gwaith.  *(Ysgol Bodfari)*

**Gofynion statudol Addysg Grefyddol** **3 Ysgol**

- Mae’r ysgolion yn rhoi mynediad cyfartal i ddisgyblion i gwricwlwm eang cyffredinol sy’n bodloni gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol a’r maes llafur y cytunwyd arno’n lleol ar gyfer addysg grefyddol. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae’r ddarpariaeth yn cydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae’r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys, sy’n bodloni’r gofynion statudol. *(Ysgol Bodfari)*

**Ymwybyddiaeth iechyd / Mentrau ysgolion iach 2 Ysgol**

- Mae darpariaeth briodol ar gyfer hyrwyddo bwyta’n iach a ffyrdd iach o fyw. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae’r ysgol wedi ennill achrediad yng Ngham 2 Gwobr Ysgolion Iach. *(Ysgol Dewi Sant)*

**Dinasyddiaeth fyd-eang / Addysg y byd / Sgiliau rhyngwladol 2 Ysgol**

- Mae hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu’n dda trwy gefnogi sefydliadau elusennol ac ABCh. *(Ysgol Llanbedr)*
- Hyrwyddir ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol iawn. *(Ysgol Dewi Sant)*

**Codi materion moesol i’w trafod / astudio / ystyried 2 Ysgol**

- Mae negeseuon moesol cadarn yn cael eu cyflwyno’n gyson a rhoddir cyfle i ddisgyblion ystyried emosiynau a theimladau, megis sut i oresgyn problemau a bod yn gwrtais. *(Ysgol Llanbedr)*
- Defnyddir gwersi addysg bersonol a chymdeithasol ac addoli ar y cyd yn effeithiol i drafod agweddau moesol. *(Ysgol Bodfari)*

**Cydymffurfio â gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd. 2 Ysgol**

- Mae’r trefniadau ar gyfer addoli ar y cyd yn bodloni gofynion statudol. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae gwasanaethau addoli ar y cyd yn cydymffurfio â gofynion statudol. *(Ysgol Bodfari)*

**Cysylltiadau gyda / Cynnwys yn y gymuned leol 2 Ysgol**

- Mae’r ysgol yn ystyried ei bod yn rhan o’r gymuned leol gyda phreswylwyr lleol yn cefnogi digwyddiadau a drefnir gan yr ysgol. Mae erthyglau am ddigwyddiadau’r ysgol yn ymddangos yn fynych mewn papurau cymunedol lleol. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae'r disgyblion yn ymweld ag amryw fannau yn y gymuned i gyfoethogi eu dysg. Mae’r rhain yn nodweddion eithriadol, sy’n ymestyn ar ddysg disgyblion ac yn eu cysylltu’n dda â sefyllfaoedd gwirioneddol o fewn eu hardal leol ac mewn ardaloedd y tu hwnt. *(Ysgol Bodfari)*

- Mae cysylltiadau gyda rhieni, y gymuned a darparwyr eraill yn dda iawn. *(Ysgol Bodfari)*
- Mae cysylltiadau â'r gymuned yn gryf. Mae'r offeiriaid lleol yn ymweld yn rheolaidd ac yn arwain addoli ar y cyd. Ceir ymweliadau bob tymor gan yr heddwas lleol sy'n helpu'r disgyblion i ddelio gyda materion iechyd a diogelwch o fewn yr ardal leol. Mae'r ysgol yn cynhyrchu cylchlythyr wythnosol i'r gymuned ac mae'r llywodraethwyr yn ysgrifennu eu llythyr eu hunain i'r gymuned yn flynyddol. Mae adeilad yr ysgol yn cael ei ddefnyddio'n dda iawn gan y gymuned. *(Ysgol Bodfari)*

**Darpariaeth Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol 2 Ysgol**

- Mae nodweddion da yn y ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. *(Ysgol Bodfari)*

**Cynnydd disgyblion / Magu hyder / sgiliau 2 Ysgol**

- Mae athrawon yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod pob disgybl yn magu hyder yn y sgiliau sylfaenol ac allweddol. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae'r ysgol wedi ennill yr ail achrediad yn Nod Ansawdd Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae cynnwys 'Sgiliau Meddwl' yn nodwedd eithriadol ac yn gweithredu fel sylfaen gadarn er mwyn datblygu'r agweddau hyn ar sgiliau allweddol disgyblion ar draws amryw feysydd pwnc. Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth dda i ddatblygu sgiliau allweddol a sylfaenol eraill o fewn pynciau yn y ddau gyfnod allweddol. *(Ysgol Bodfari)*
- Mae cynllunio athrawon yn gyffredinol yn nodi cynnwys pob agwedd berthnasol ar sgiliau allweddol o fewn ac ar draws pob pwnc. *(Ysgol Bodfari)*

**Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Ymwybyddiaeth o ddiwylliannau neu draddodiadau eraill**

**1 Ysgol**

- Mae'r wythnos amlddiwylliannol yn cynnig ystod o weithgareddau sy'n cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion yn llawn o ffordd o fyw, traddodiadau a diwylliannau pobl eraill. *(Ysgol Bodfari)*

**Cadw / Hyrwyddo gwerthoedd / Moesau da / Parch**

**1 Ysgol**

- Gwneir defnydd effeithio o ymwelwyr i hyrwyddo gwerthoedd. *(Ysgol Dewi Sant)*

**Elusennau ac achosion da 1 Ysgol**

- Anogir disgyblion i feddwl am eraill a chodi arian dros elusennau lleol a chenedlaethol. *(Ysgol Llanbedr)*

- Mae papurach a chyfarpar wedi'u hanfon i gartref plant amddifad yn Nepal ac i ysgol newydd ei hadeiladu yn y Gambia. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae teuluoedd digartref yn elwa o gyfraniadau disgyblion yn yr Ŵyl Ddiolchgarwch ac mae casgliad caeadau poteli wedi cyfrannu at brynu cadeiriau olwyn i'r anabl. *(Ysgol Llanbedr)*

## Datblygiad / darpariaeth foesol (a chymdeithasol) 1 Ysgol

- Mae gwasanaethau'r bore yn cynnig cyfle i ddisgyblion drafod amryw agweddau moesol ar storïau a gyflwynir iddynt. *(Ysgol Bodfari)*

**Gweithgareddau / cyfleoedd allgyrsiol 1 Ysgol**

- Cyfoethogir profiadau disgyblion ymhellach trwy glwb yr Urdd yn wythnosol a chyswllt achlysurol mewn gweithgareddau chwaraeon ar ôl ysgol. Mae rhai disgyblion yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau 'carfan ysgrifennu'. Arweiniodd hyn at ddisgybl yn profi llwyddiant yng nghystadleuaeth Cymraeg ail iaith yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. *(Ysgol Llanbedr)*

**Datblygiad Cymdeithasol / Rhyngweithio / Sgiliau rhyngbersonol 1 Ysgol**

- Cynigir ystod o brofiadau i ddisgyblion gefnogi eu datblygiad cymdeithasol a diwylliannol. *(Ysgol Llanbedr)*

**Datblygiad ysbrydol 1 Ysgol**

- Hyrwyddir datblygiad ysbrydol disgyblion trwy sesiynau addoli ar y cyd. *(Ysgol Llanbedr)*

**Cyfleoedd ar gyfer / Ansawdd trafodaethau 1 Ysgol**

- Mae themâu a thestunau perthnasol wedi'u hintegreiddio o fewn pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'u trafod yn ystod amser cylch, trafodaethau dosbarth a gwersi addysg grefyddol gysylltiedig *(Ysgol Llanbedr)*

**Staff/Oedolion fel modelau rôl 1 Ysgol**

- Mae perthnasau rhyngbersonol effeithiol yn cael eu hyrwyddo gan bob aelod o staff. *(Ysgol Llanbedr)*

**Gwaith y Cyngor Ysgol 1 Ysgol**

- Trwy'r cyngor ysgol, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd da i'r disgyblion ddylanwadu ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau beunyddiol. *(Ysgol Dewi Sant)*

**Entrepreneuriaeth a Menter 1 Ysgol**

- Mae sgiliau entrepreneuriaeth yn cael eu cyfoethogi trwy gyswllt disgyblion hŷn wrth werthu ffrwythau fel rhan o ffocws yr ysgol ar fwyta'n iach. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae disgyblion yn trefnu gwerthu cacennau a theganau a gemau ail-law, cynhyrchu cardiau a gwerthu CDs o'r gyngerdd Nadolig i godi arian i gronfa'r ysgol. *(Ysgol Llanbedr)*

**Addysg gysylltiedig â gwaith** **1 Ysgol**

- Mae addysg gysylltiedig â gwaith yn dda ac wedi hen sefydlu ar draws yr ysgol. *(Ysgol Bodfari)*
- Mae disgyblion yn ymweld â busnesau lleol a gwahoddir ymwelwyr i siarad â hwy am eu bywydau gwaith. *(Ysgol Bodfari)*

## SYLWADAU NEGYDDOL

**Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig** **2 Ysgol**

- Mae absenoldeb cynllun tymor canolig gyda ffocws clir weithiau yn arwain at ddiffyg dyfnder a dilyniant yn nysg disgyblion. Mae hyn amlycaf yn y Gymraeg fel ail iaith a dwyieithrwydd. *(Ysgol Llanbedr)*
- Nid yw Cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn sicrhau integreiddiad a dilyniant o fewn yr ystod pynciau mewn perthynas â gwybodaeth a sgiliau disgyblion. *(Ysgol Llanbedr)*

**Entrepreneuriaeth a Menter** **2 Ysgol**

- Hyd yma nid yw cysylltiadau â'r byd gwaith a sgiliau menter wedi'u datblygu'n ddigonol. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae sgiliau menter ac eraill sy'n ofynnol i gefnogi datblygiad economaidd wedi'u tan ddatblygu hyd yma. Nid oes gan ddisgyblion gyfleoedd digonol i ddatblygu sgiliau datrys problemau a gwneud penderfyniadau o fewn cysyniadau entrepreneuriaeth. *(Ysgol Bodfari)*

**Addysg gysylltiedig â gwaith** **2 Ysgol**

- Nid yw'r ysgol wedi sefydlu polisi neu strategaeth wedi'u dogfennu i ddatblygu cysylltiau gyda diwydiant neu gyflogwyr, i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r byd gwaith. *(Ysgol Llanbedr)*
- Ychydig iawn o bartneriaethau neu gysylltiau ffurfiol gyda chyflogwyr neu ddiwydiant lleol sy'n bodoli a chan hynny mae'r ddarpariaeth gyfredol o brofiadau addysg gysylltiedig â gwaith effeithiol yn gyfyngedig. *(Ysgol Llanbedr)*
- Hyd yma nid yw cysylltiau â'r byd gwaith a sgiliau menter wedi'u datblygu'n ddigonol. *(Ysgol Dewi Sant)*

**Cyfleoedd i ystyried** **1 Ysgol**

- Nid yw cyfleoedd ar gyfer ystyriaeth dawel bob amser yn cael eu cynnig. *(Ysgol Llanbedr)*

**Cynnydd disgyblion / Magu hyder / sgiliau 1 Ysgol**

- Er bod safonau disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn dda, mae diffyg manylder yn y cynllunio ar gyfer sgiliau sylfaenol ac allweddol ar draws y cwricwlwm. *(Ysgol Llanbedr)*

**Ymwybyddiaeth / Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy 1 Ysgol**

- Ychydig iawn o enghreifftiau ymarferol sydd i'w cael ar gyfer hyrwyddo ac annog cyswllt disgyblion yn agweddau ar ddatblygiad cynaliadwy. *(Ysgol Llanbedr)*
- Nid yw'r ysgol wedi sefydlu Eco-bwyllgor ac mae hyrwyddo pob agwedd ar ddatblygiad cynaliadwy yn faes datblygiad pellach sydd wedi'i adnabod gan yr ysgol. *(Ysgol Llanbedr)*

**Ymwybyddiaeth iechyd / Mentrau ysgolion iach 1 Ysgol**

- Nid oes cynllunio penodol ar gyfer hyrwyddo addysg iechyd disgyblion, er mae gwella cysylltiadau chwaraeon yn y gymuned i helpu hyrwyddo ffitrwydd yn faes a nodwyd ar gyfer datblygiad. *(Ysgol Llanbedr)*

## Addysg Grefyddol

## Sylwadau Positif

**Safonau cyrhaeddiad 2 Ysgol**

- Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da heb unrhyw ddiffygion pwysig. *(Ysgol Llanbedr)*
- Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da heb unrhyw ddiffygion pwysig. *(Ysgol Llanbedr)*
- Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da heb unrhyw ddiffygion pwysig. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da heb unrhyw ddiffygion pwysig. *(Ysgol Dewi Sant)*

**Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Cynnwys crefyddau ac eithrio Cristnogaeth 2 Ysgol**

- Yng Nghyfnod Allweddol 1, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod arteffactau sy'n gysylltiedig â'r ffydd Iddewig a sut oedd bwyd yn cael ei fwyta yn ystod Gwledd y Pasg. *(Ysgol Llanbedr)*

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn adnabod rhinweddau arweinyddiaeth ac yn trafod pwysigrwydd Abraham sylfaenydd Iddewiaeth a Mohammed fel sylfaenydd Islam. *(Ysgol Llanbedr)*
- Yng Nghyfnod Allweddol 1, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cofio nifer o straeon o grefyddau eraill, yn ddeallus ac yn hyderus. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae disgyblion yn deall bod nifer o grefyddau yn y wlad hon a bod pobl yn dewis dathlu eu ffydd mewn amrywiaeth o ffyrdd. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae disgyblion yn gyfarwydd â gwyliau crefyddol megis Divali ac yn deall arwyddocâd rhai symbolau. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn dangos gwybodaeth dda o stori Rama a Sita ac yn datblygu eu dealltwriaeth o symbolaeth ymhellach trwy ddathlu Divali. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae'r holl ddisgyblion yn gwybod pwysigrwydd llyfrau sanctaidd i grefyddau eraill. *(Ysgol Dewi Sant)*

**Gwybodaeth / Dealltwriaeth o'r Beibl / Straeon o'r Beibl 2 Ysgol**

- Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn adrodd rhai straeon o'r Beibl, megis genedigaeth Moses a'r hyn a oedd yn ei wneud yn arbennig. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae'r disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn ailadrodd stori Solomon a Dafydd yn gywir ac yn gwybod fod Samuel yn arbennig oherwydd iddo gael ei ddewis gan Dduw. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae llawer o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ymwybodol o'r Deg Gorchymyn ac yn addasu straeon a damhegion o'r Beibl yn dda i gyd-destun modern. *(Ysgol Llanbedr)*
- Yng Nghyfnod Allweddol 1, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cofio nifer o straeon o'r Beibl. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae'r holl ddisgyblion yn gwybod pwysigrwydd y Beibl. *(Ysgol Dewi Sant)*

**Gwybodaeth / Ymwybyddiaeth o fywydau enwog 2 Ysgol**

- Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion wybodaeth dda o bobl amlwg sydd wedi helpu eraill yn ystod eu bywydau ac wedi parhau â gwaith Iesu Grist. Gwyddant fod Betsi Cadwaladr wedi helpu milwyr a gafodd eu hanafu ac mae llawer o ddisgyblion yn sylweddoli arwyddocâd gwaith Nelson Mandela, Desmond Tutu, Mahatma Gandhi a'r Fam Teresa. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn gyfarwydd â stori William Morgan. *(Ysgol Dewi Sant)*

**Gwybodaeth / Dealltwriaeth o Gristnogaeth 1 Ysgol**

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gwybod fod Iesu Grist wedi'i eni ym Methlehem. Maent yn cofio ffeithiau yn ymwneud â stori Nadolig. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gwybod arwyddocâd y Pasg a pheth dilyniant o stori'r Pasg yn gywir. Gallant enwi rhai o'r disgyblion, cofio straeon y pysgotwyr a sut y bradychodd Jwdas Iesu Grist. *(Ysgol Llanbedr)*

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn gwybod fod gan yr eglwys ei chalendr ei hun wedi'i seilio ar fywyd Iesu Grist. Gallant enwi'r naw tymor a'r pedwar lliw, sy'n cynrychioli calendr yr eglwys. *(Ysgol Llanbedr)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn adnabod rhinweddau arweinyddiaeth ac yn trafod pwysigrwydd Iesu Grist fel sylfaenydd Cristnogaeth. *(Ysgol Llanbedr)*

**Gwybodaeth / Dealltwriaeth cysyniadau / themâu crefyddol 1 Ysgol**

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn sylweddoli fod gwyliau crefyddol yn arbennig ac yn gallu esbonio pam bod dathliadau, megis pen-blwyddi a Sul y Mamau, yn bwysig iddynt. *(Ysgol Llanbedr)*
- Erbyn bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ym Mlwyddyn 5, gallant adnabod yn hyderus rhai o'r ffyrdd y gellir ystyried bywyd fel siwrnai. *(Ysgol Llanbedr)*

**Dim diffygion 1 Ysgol**

- Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig. *(Ysgol Llanbedr)*

**Cyfleoedd ar gyfer trafod materion / teimladau / materion moesol 1 Ysgol**

- Ymron heb eithriad, mae disgyblion yn arddangos gwybodaeth bod gan bob crefydd god ymarfer ac yn dangos aeddfedrwydd wrth drafod materion moesol. *(Ysgol Dewi Sant)*

**Cyfleoedd / Gallu i fynegi eu syniadau / barnau eu hunain 1 Ysgol**

- Mae llawer o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 1 yn siarad am eu profiadau eu hunain ac yn cynnig ymatebion a barnau personol ynglŷn â digwyddiadau, megis genedigaeth baban. *(Ysgol Llanbedr)*

**Cyfarwydd â thermau / geirfa dechnegol 1 Ysgol**

- Mae llawer o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn adnabod yn gywir y gwahaniaethau a'r nodweddion sy'n debyg o fewn crefyddau. Maent yn gwybod arwyddocâd Divali ar gyfer y ffydd Hindŵ. Maent yn adnabod rhai symbolau crefyddol ac yn defnyddio geirfa briodol i ddisgrifio'r symbolau a'r arteffactau y tu fewn i'r eglwys. *(Ysgol Llanbedr)*

**Deall yr angen ar gyfer / Dangos sensitifrwydd tuag at gredoau / gwerthoedd eraill 1 Ysgol**

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod pwysigrwydd cydraddoldeb ac yn dangos parch tuag at wahanol safbwyntiau *(Ysgol Dewi Sant)*

**Defnydd ar TGCh o fewn Addysg Grefyddol 1 Ysgol**

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn defnyddio sgiliau TGCh effeithiol iawn i gysylltu credoau crefyddol â phrofiadau dynol yn ymwneud â phererindod ag amryw gysegrfeydd o amgylch y byd. *(Ysgol Llanbedr)*

## SYLWADAU NEGYDDOL

**Safonau cyrhaeddiad** **1 Ysgol**

- Gwella cynllunio cwricwlwm i sicrhau cynnydd gwell y disgyblion ym mhob pwnc. *(Ysgol Llanbedr)*

**Cyfleoedd ar gyfer / Gallu i ystyried agweddau ar waith** **1 Ysgol**

- Er nad oes unrhyw ddiffygion pwysig, mae lle i ddisgyblion ddangos mwy o fenter wrth ymchwilio i ochr ysbrydol ar fywyd a'r effaith y mae'n ei chael ar gredinwyr. *(Ysgol Dewi Sant)*

**Natur / Ansawdd tasgau a osodir mewn gwersi** **1 Ysgol**

- Er nad oes unrhyw ddiffygion pwysig, mae lle i ddisgyblion ddangos mwy o fenter wrth ymchwilio i ochr ysbrydol ar fywyd a'r effaith y mae'n ei chael ar gredinwyr. *(Ysgol Dewi Sant)*

**Asesu / Cofnodi gwaith disgybl / Cyrhaeddiad / Perfformiad**
**1 Ysgol**

- Defnyddio asesiad yn fwy effeithiol er mwyn hyrwyddo datblygiad disgyblion i ddod yn gynyddol gyfrifol am eu dysg eu hunain. *(Ysgol Dewi Sant)*

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| Dyddiad y Cyfarfod: | | 24 Chwefror 2010 |
|---|---|---|
| Eitem Agenda: | **5** | Manylion yr Adroddiad |

*Cefndir i'r Adroddiad:*

Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o Gymdeithas CYSAGau Cymru, ac yn derbyn adroddiadau ar gyfarfodydd gan aelodau sy'n mynychu, copïau o gofnodion cyfarfodydd ac unrhyw adroddiadau eraill o'r Gymdeithas.

*Diben yr Adroddiad:*

Hysbysu aelodau o ffocws a phrif ganlyniadau'r cyfarfod blaenorol.

*Argymhellion:*

- Derbyn y cyflwyniadau llafar, a chofion y cyfarfod blaenorol.